Rhif: WG13956

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
HSC(4)-13-11 papur 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth ar Roi Organau a Meinweoedd:

## Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru


Dyddiad cyhoeddi: **8 Tachwedd 2011**
Ymatebion erbyn: **31 Ionawr 2012**

## Trosolwg

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn er mwyn casglu ymatebion ar gynigion Llywodraeth Cymru i ddeddfu ar roi organau a meinweoedd.

Amcan Bil y Cynulliad ar roi organau a meinweoedd yw cyflwyno system yng Nghymru a fydd yn sicrhau bod mwy o bobl yn rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru. Byddai hynny'n ein galluogi i arbed mwy o fywydau ac i wella ansawdd bywydau pobl eraill.

Caiff eich ymatebion eu hystyried wrth ddatblygu'r Bil.

## Sut i ymateb

Mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau.

Croesewir sylwadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Dylech anfon eich ymatebion i'r ymgynghoriad drwy'r e-bost neu'r post i'r cyfeiriad isod i'n cyrraedd yn ddim hwyrach na 31 Ionawr 2012.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae fersiwn Hawdd ei Darllen o'r ddogfen hon wedi'i datblygu ac mae ar gael drwy gysylltu â'r cyfeiriad isod.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm y Bil Rhoi Organau
Y Gyfarwyddiaeth Feddygol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Ffôn:** 029 2037 0011

**E-bost:** organdonation@wales.gsi.gov.uk

## Diogelu Data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2011
WG13956

# Cynnwys


**RHAGAIR Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL ......... 1**

**CRYNODEB GWEITHREDOL ......... 2**

**YR ACHOS DROS NEWID ......... 4**

Beth sy’n digwydd nawr ......... 4

Y fframwaith cyfreithiol ......... 4
Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG (y Gofrestr) ......... 5

Symud at system feddal o optio allan ......... 5

**Y SYSTEM FEDDAL O OPTIO ALLAN SY’N CAEL EI CHYNNIG AR GYFER CYMRU ......... 7**

Pobl a gaiff eu cynnwys yn y system feddal o optio allan ......... 7

Cyfle i fynegi gwrthwynebiad i fod yn rhoddwr ......... 7
Byw yng Nghymru ......... 8
Cydsyniad ......... 9
Y gallu i ddeall ......... 9
Oedolion 18 oed a throsodd ......... 10
Pobl na fydd yn cael eu cynnwys yn y trefniadau newydd ......... 10

Gweithredu’r system feddal o optio allan yng Nghymru ......... 10

Parhau â’r Gofrestr Rhoddwyr Organau gyfredol ar gyfer pobl Cymru ......... 10
Cadw cofnodion ......... 11
Sut i wrthwynebu rhoi organau a meinweoedd ......... 12
Cadw’r system feddal o optio allan yn gyfredol ......... 12
Y diogelwch a ddarperir gan rôl y teulu ......... 13

Beth na fydd yn newid yn sgil y system feddal o optio allan ......... 14

**GWEITHREDU’R DDEDDFWRIAETH ARFAETHEDIG ......... 16**

Asesu’r effaith ......... 16

Asesu’r effaith ar gydraddoldeb ......... 16
Asesu’r effaith ar breifatrwydd ......... 17
Asesiad Effaith Rheoleiddiol ......... 17

Amserlen ......... 17

Darpariaeth ynghylch y Gymraeg ......... 18

Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ......... 18

**CWESTIYNAU’R YMGYNGHORIAD ......... 19**

# RHAGAIR Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae prinder organau dynol yn dal i achosi marwolaethau a dioddefaint diangen, i gleifion sy'n aros am drawsblaniad ac i'w perthnasau. Ar unrhyw adeg mae tua 300 o bobl ar y rhestr aros am drawsblaniad, ac yn 2010/11 bu farw 51 o bobl yng Nghymru tra’n aros am organau.

Rydym eisoes yn gweithredu’r holl argymhellion a gafodd eu gwneud mewn adolygiad a gynhaliwyd ledled y Deyrnas Unedig, ac mae cynnydd da wedi’i wneud. Y llynedd fe wnaeth 83 o drigolion Cymru roi eu horganau – y nifer fwyaf erioed.

Er hynny, rydym wedi ymrwymo i fynd gam ymhellach, gan nad yw nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu yn ddigon i ddiwallu'r angen. Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu yn dilyn marwolaeth, a hynny er mwyn gwella iechyd ac ansawdd bywydau'r bobl sydd angen trawsblaniad. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithredu ar yr ymrwymiad yn ein maniffesto i gyflwyno Bil a fydd yn cynnig system o optio allan o roi organau.

Trwy drafod ac ymgynghori ar y mater hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ein hargyhoeddi bod Cymru'n barod i gymryd y cam hwn, fel cenedl sy'n adnabyddus am ei natur anhunanol, ei haelioni a'i hystyriaeth o bobl eraill. Bu Cymru’n arwain ar roi organau a meinweoedd yn y gorffennol, gan arloesi ar y syniad o gerdyn rhoddwr arennau a Chofrestr Rhoddwyr Organau gyfrifiadurol. Rydym o'r farn y dylem barhau i fod yn flaengar yn y maes hwn, a dilyn esiampl y gwledydd yn Ewrop sydd â record lwyddiannus o roi organau. Rydym am wneud hyn drwy gyflwyno system feddal o optio allan fel un elfen mewn pecyn o fesurau a fydd yn cynyddu nifer y bobl sy'n rhoddwyr organau a meinweoedd. Mae croeso ichi ymateb i'r ymgynghoriad hwn a'n helpu ni i wneud y peth iawn.

Os ydych am gofnodi eich dymuniadau ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau bresennol, rydym yn cynnig y byddwch yn dal i allu gwneud hynny. Yn wir, gallwch wneud hynny nawr. Mae manylion ynghylch sut i ymuno â’r Gofrestr Rhoddwyr Organau i’w gweld yn y Papur Gwyn hwn.

I gloi, cofiwch ddweud wrth y rhai sy’n agos atoch eich bod yn credu mewn rhoi organau a meinweoedd. Byddai hynny'n ei gwneud yn llawer haws iddyn nhw ddeall eich dymuniadau petaech yn marw.

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

# CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer system feddal yng Nghymru o optio allan o roi organau a meinweoedd ar ôl marwolaeth.

2. O dan y system feddal o optio allan a gynigir ar gyfer Cymru, byddai hawl i dynnu a defnyddio organau a meinweoedd onibai fod y sawl a fu farw wedi gwrthwynebu hynny yn ystod ei oes. Bydd mecanwaith ffurfiol ar gael i unigolion allu cofrestru'r gwrthwynebiad hwnnw. Ar ôl i rywun farw, bydd ei berthnasau'n cael eu cynnwys yn broses o benderfynu ynglŷn â rhoi.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y newid hwn er mwyn sicrhau bod mwy o organau ar gael i'w trawsblannu. Ar gyfartaledd mae un person bob wythnos yn marw yng Nghymru am nad oes modd dod o hyd i roddwr er mwyn sicrhau trawsblaniad. Trawsblannu organau a meinweoedd yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o driniaeth feddygol fodern sy'n arbed bywydau ac yn gwella ansawdd bywyd i gleifion sy'n dioddef o fethiant organau. Trawsblaniad yw'r driniaeth orau bosibl i'r rhan fwyaf o bobl sy'n dioddef o fethiant organau.

4. Ar yr un pryd, mae pobl eraill yn marw o dan amgylchiadau lle byddai rhoi eu horganau a'u meinweoedd yn bosibl, ond nad yw hynny'n digwydd. Nid am fod y sawl a fu farw wedi mynegi ei wrthwynebiad i roi, ond am nad oedd wedi ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau.

5. Yn ôl tystiolaeth o wledydd eraill, gall system fel y system feddal o optio allan a gynigir ar gyfer Cymru gynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w rhoi, a thrwy hynny arbed bywydau. Mae prosesau ymgynghori gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi dangos cefnogaeth gan y cyhoedd i newid yn y ddeddfwriaeth i gyflwyno system feddal o optio allan.

6. Mae'r Papur Gwyn yn manylu ynglŷn â'r system feddal o optio allan a gynigir ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys trawsblannu organau a meinweoedd pobl sydd wedi marw. Y prif nodweddion yw –

a) bydd yn berthnasol i bobl 18 oed a throsodd sy'n byw ac yn marw yng Nghymru;
b) bydd cyfle i'r oedolion hynny fynegi eu gwrthwynebiad i roi eu horganau a'u meinweoedd;
c) bydd system effeithiol a diogel i unigolion fynegi eu gwrthwynebiad i fod yn rhoddwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a bydd system o'r fath yn caniatáu iddynt wrthwynebu rhoi rhai neu'r cyfan o'u horganau a'u meinweoedd;
d) bydd unrhyw wrthwynebiad gan unigolyn i roi organau a/neu feinweoedd yn cael ei barchu ar ôl iddo farw;
e) bydd y system yn cefnogi'r cyfle i unigolion newid eu meddwl, ac i gynnwys pobl sy'n symud i fyw i Gymru neu sy'n cyrraedd 18 oed;

f) ar ôl i rywun farw, bydd ei deulu yn cael eu cynnwys yn y broses o benderfynu ynglŷn â rhoi organau a meinweoedd.

7. Bydd y cynigion yn berthnasol i roi organau a meinweoedd at ddibenion trawsblaniad yn unig. Ni fyddant yn cynnwys rhoi organau a meinweoedd at ddibenion eraill, megis ymchwil, arddangos neu ddefnydd masnachol.

8. Bydd pryderon yn codi'n aml fod unigolion o dan y system feddal o optio allan yn colli eu hawliau dros eu cyrff, a bod y pŵer i dynnu organau a meinweoedd i'w trawsblannu yn nwylo'r wladwriaeth. Fodd bynnag, yn ôl tystiolaeth, mae unigolion yn fwy tebygol o wneud penderfyniadau am roi organau a meinweoedd yn ystod eu hoes o dan system o'r fath. Bydd penderfyniad unigolyn yn cael ei barchu hefyd ar ôl iddo farw. At hynny, mae'r baich o wneud penderfyniad yn cael ei gymryd oddi ar y perthnasau ar adeg anodd iawn iddynt, pan nad oes ganddynt yn aml unrhyw arwydd clir o ddymuniad y sawl a fu farw.

9. 2015 fydd y cynharaf y caiff y system feddal o optio allan ei gweithredu yng Nghymru. Cyn i'r system newydd ddod i rym, bydd ymgyrch fawr yn cael ei chynnal i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i wneud yn siŵr bod yr holl bobl sy'n dymuno optio allan yn gwybod sut i wneud hynny.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn. Dylid cyflwyno ymatebion i Lywodraeth Cymru erbyn **31 Ionawr 2012**, ac mae canllawiau ar sut i wneud hynny yn Atodiad A.

# YR ACHOS DROS NEWID

1. Yng Nghymru yn 2010/11, bu farw 51 o bobl tra’r oeddent ar y rhestr aros neu ar ôl iddynt gael eu symud oddi ar y rhestr aros am fod eu hiechyd yn dirywio. Ar draws y Deyrnas Unedig mae mwy na 1,000 o bobl yn marw bob blwyddyn tra byddant yn aros am drawsblaniad organ.

2. Ar yr un pryd, mae pobl eraill yn marw o dan amgylchiadau lle byddai rhoi eu horganau a'u meinweoedd yn bosibl, ond nad yw hynny'n digwydd. Nid am fod y sawl a fu farw wedi mynegi ei wrthwynebiad i roi, ond am nad oedd wedi gwneud dim ynghylch ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau (y Gofrestr) nac wedi rhoi gwybod i’w berthnasau am ei ddymuniad.

3. Trawsblannu organau a meinweoedd yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o driniaeth feddygol fodern sy'n arbed bywydau ac yn gwella ansawdd bywyd i gleifion sy'n dioddef o fethiant eu horganau. Trawsblaniad yw'r driniaeth orau bosibl i'r rhan fwyaf o bobl sy'n dioddef o fethiant organau.

4. Mae’r organau a’r meinweoedd sy’n cael eu rhoi yn cynnwys yr arennau, y galon, yr afu/iau, yr ysgyfaint, y pancreas, y coluddyn bach, y cornbilennau a’r sclera (o’r llygaid), y falfiau a’r pericardiwm (o’r galon), ynghyd â chroen, esgyrn, tendonau a chartilag.

5. Er y byddai bron pawb ohonom yn barod i dderbyn trawsblaniad organ neu feinwe, dim ond 31 y cant o boblogaeth Cymru sydd wedi cofrestru â’r Gofrestr. Mae tystiolaeth yn awgrymu y byddai llawer mwy o bobl yn hoffi ymuno â’r Gofrestr, ond heb wneud hynny eto. Trwy greu amgylchedd lle mae rhoi organau a meinweoedd yn ddewis naturiol, bydd modd sicrhau bod mwy o organau a meinweoedd gael pan fydd fwyaf eu hangen.

6. Mae cymariaethau rhwng gwledydd yn dangos bod amryw o ffactorau yn dylanwadu ar y cyfraddau rhoi organau. Un o’r ffactorau hynny yw cyflwyno system o optio allan. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod y cyfraddau rhoi organau gan bobl a fu farw yn cynyddu tua 25 i 30 y cant mewn gwledydd lle ceir system feddal o optio allan.

7. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y bydd symud at ddefnyddio system feddal o optio allan yn sicrhau y daw rhoi organau a meinweoedd yn rhywbeth cyffredin, ac y bydd yn annog ac yn hwyluso trafodaeth ar y materion hyn ac yn cynyddu nifer yr organau a’r meinweoedd sydd ar gael i’r rheini sydd eu hangen fwyaf.

## Beth sy’n digwydd nawr

### Y fframwaith cyfreithiol

8. Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yw’r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae darpariaethau tebyg yn berthnasol yn yr Alban o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol (Yr Alban) 2006.

9. Mae’r ddau fframwaith cyfreithiol yn darparu system o optio i mewn. Mae’r system optio i mewn yn seiliedig ar gydsyniad penodol lle bydd unigolion yn gwirfoddoli i fod yn rhoddwyr organau a meinweoedd. Nid oes raid cael cydsyniad ysgrifenedig, ond yn ymarferol mae’r rhan fwyaf o benderfyniadau ynghylch rhoi yn golygu cario cerdyn rhoddwr wedi’i lofnodi, neu ymuno â’r Gofrestr.

10. Rhaid i unigolion gymryd camau cadarnhaol i gofnodi eu dymuniad i fod yn rhoddwyr.

11. Fodd bynnag, pan nad yw unigolyn wedi rhoi gwybod y naill ffordd neu’r llall am ei benderfyniad i roi ei organau a’i feinweoedd, gall y teulu roi cydsyniad i roi ar ran y sawl a fu farw. Yn ystod 2010/11 roedd ychydig dros 67 y cant o’r rhoddwyr yn y Deyrnas Unedig heb gofrestru â’r Gofrestr.

### Cofrestr Rhoddwyr Organau y GIG (y Gofrestr)

12. Cronfa ddata gyfrifiadurol, gyfrinachol yw’r Gofrestr. Mae’n cadw manylion am bobl sydd wedi cofrestru i fod yn rhoddwyr organau a meinweoedd ar ôl iddynt farw. Defnyddir y Gofrestr ar ôl i’r unigolyn farw er mwyn gweld a oeddent am roi eu horganau a’u meinweoedd, ac os felly pa rai.

13. Gall y cyhoedd ymuno â’r Gofrestr mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys:

- cofrestru ar-lein (www.organdonation.nhs.uk);
- drwy gysylltu â Llinell Rhoddwyr y GIG (0300 123 23 23);
- wrth gofrestru am drwydded yrru gyda’r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA);
- wrth gofrestru â meddyg teulu;
- wrth wneud cais am Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd;
- wrth wneud cais am Gerdyn Mantais Boots.

14. Yn y Deyrnas Unedig, caiff organau gan roddwyr eu trawsblannu yn ôl yr angen ac ar sail paru’r math o waed a meinwe. Maent yn cael eu paru yn ôl grŵp gwaed – ac yn achos arennau, yn ôl y math o feinwe. Y trawsblaniadau sydd wedi’u paru orau sy’n arwain at y canlyniadau gorau.

## Symud at system feddal o optio allan

15. Yn 2008/09 bu Llywodraeth Cymru yn gofyn am farn pobl ar sut i gynyddu nifer y rhoddwyr organau. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws Cymru, gan gynnwys cyfarfod rhyng-ffydd. Rhoddwyd ystyriaeth i safbwyntiau ysgrifenedig ac arolwg ffôn.

16. Yn sgil hyn cafwyd dadl gyhoeddus a gadarnhaodd fod cefnogaeth fawr i gynyddu nifer y rhoddwyr organau. Cyflwynwyd ystod eang o awgrymiadau ar sut i gyflawni hyn, gan gynnwys newidiadau posibl i’r system gydsynio ar gyfer rhoi.

17. Cadarnhaodd y ddadl fod pobl yng Nghymru’n awyddus i weld newid i’r system gydsynio, gyda nifer yn ffafrio system feddal o optio allan.

18. Yn sgil y drafodaeth a’r ddadl gyhoeddus, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur ymgynghori, *Opsiynau ar gyfer newid y system rhoi organau yng Nghymru.* Roedd canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gref i Lywodraeth Cymru wrth iddi fynd ati i sicrhau newid deddfwriaethol a chyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru.

19. Yn natganiad deddfwriaethol Prif Weinidog Cymru ar 12 Gorffennaf 2011, nododd y byddai Llywodraeth Cymru yn “*...lansio papur ymgynghori gwyn ar Fil Rhoi Organau (Cymru) cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer system o ddewis peidio â rhoi organau, gyda chefnogaeth rhaglen gyfathrebu eang”.*

20. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigon Llywodraeth Cymru ar gyfer system feddal o optio allan, a fydd yn rhoi’r cyfle i bobl Cymru roi organau a meinweoedd ar ôl eu marwolaeth.

# Y SYSTEM FEDDAL O OPTIO ALLAN SY'N CAEL EI CHYNNIG AR GYFER CYMRU

21. Mae'r systemau optio allan yn cael eu disgrifio fel rhai caled neu feddal –

a) mewn system galed o optio allan caniateir tynnu a defnyddio organau a meinweoedd y sawl a fu farw os na fydd wedi mynegi gwrthwynebiad i hynny yn ystod ei oes;

b) mewn system feddal o optio allan mae tynnu a defnyddio organau a meinweoedd y sawl a fu farw hefyd yn cael ei ganiatáu os na fydd wedi mynegi gwrthwynebiad i hynny yn ystod ei oes, ond ar ôl iddo farw bydd gan ei berthnasau ran yn y broses benderfynu ynghylch rhoi.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig system feddal o optio allan ar gyfer Cymru.

22. Dyma brif nodweddion y system feddal o roi organau a meinweoedd ar ôl marwolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chyflwyno i Gymru –

a) bydd yn berthnasol i bobl 18 oed a throsodd sy'n byw ac yn marw yng Nghymru;

b) bydd cyfle i bobl fynegi eu gwrthwynebiad i roi eu horganau a'u meinweoedd;

c) bydd system effeithiol a diogel i unigolion fynegi eu gwrthwynebiad i fod yn rhodddwyr os ydynt yn dymuno gwneud hynny, a bydd system o'r fath yn caniatáu iddynt wrthwynebu rhoi rhai neu'r cyfan o'u horganau a'u meinweoedd;

d) bydd unrhyw wrthwynebiad gan unigolyn i roi organau a/neu feinweoedd yn cael ei barchu ar ôl iddo farw;

e) bydd y system yn cefnogi'r cyfle i unigolion newid eu meddwl, ac i gynnwys pobl sy'n symud i fyw i Gymru neu sy'n cyrraedd 18 oed;

f) ar ôl i rywun farw, bydd ei deulu yn cael eu cynnwys yn y broses o benderfynu ynglŷn â rhoi organau a meinweoedd.

## Pobl a gaiff eu cynnwys yn y system feddal o optio allan

23. Bydd y system feddal o optio allan yn berthnasol i bobl 18 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru, ac sydd wedi cael cyfle i fynegi gwrthwynebiad i'w horganau a'u meinweoedd gael eu rhoi ar ôl eu marwolaeth.

### Cyfle i fynegi gwrthwynebiad i fod yn rhoddwr

24. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod gan bawb yr hawl i fynegi eu gwrthwynebiad i roi eu horganau a'u meinweoedd ar ôl iddynt farw, a bod yr hawl honno'n cael ei pharchu. Er mwyn sicrhau y gellir mynegi gwrthwynebiad, rhaid bod y cyfle i wneud hynny'n bodoli, a rhaid rhoi'r cyfle hwnnw.

25. Er mwyn rhoi cyfle i unigolyn fynegi ei wrthwynebiad, rhaid sicrhau'r canlynol –

a) bod gwybodaeth ar gael yn hawdd am y system feddal o optio allan yng Nghymru;
b) bod yr unigolyn yn gallu deall yr wybodaeth sydd ar gael a dod i benderfyniad;
c) system ar gyfer mynegi gwrthwynebiad.

26. Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer mynegi a chofnodi'r gwrthwynebiad i'w gweld yn nes ymlaen yn y Papur Gwyn hwn.

**Byw yng Nghymru**

27. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r ddeddfwriaeth newydd gynnwys pawb sy'n marw yng Nghymru, dim ond y rheini sy'n byw ac yn marw yng Nghymru.

28. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd y trefniadau newydd yn berthnasol i bobl sydd wedi byw yng Nghymru'n ddigon hir i wybod am y system a'i deall.

29. Y rheswm dros wneud y trefniadau hyn yn berthnasol i bobl sy'n byw yng Nghymru a'r bobl sydd wedi byw yma'n ddigon hir yw ceisio sicrhau y bydd y bobl hyn yn ymwybodol o'r system ac yn gwybod beth yw'r drefn o ran gwrthwynebu. Nid oes disgwyl i bobl sy'n ymweld â Chymru wybod am y trefniadau, ac ni fyddant wedi cael cyfle i wrthwynebu.

30. Cydnabyddir y bydd angen i'r ddeddfwriaeth fod yn eglur ynghylch ystyr byw yng Nghymru.

31. Bydd angen adlewyrchu bywyd bob dydd arferol unigolion wrth ystyried a ydynt yn byw yng Nghymru fel arfer ai peidio, ac ni ddylai absenoldebau dros dro (fel gwyliau, hamdden a busnes) ddylanwadu ar hynny. Rhaid i'r drefn fod yn eglur i'r clinigwyr ac i'r cyhoedd.

32. Fel y nodir uchod, rhaid i unigolyn fod wedi byw yng Nghymru am gyfnod o amser i fod wedi dod i wybod a deall digon am y system feddal optio allan o roi organau a meinweoedd. Yn y Papur Gwyn hwn rydym yn gofyn barn pobl am y cyfnod o amser.

33. Bydd rhaglen helaeth ac eang o godi ymwybyddiaeth yn digwydd yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno'r system newydd. Bydd hyn yn ceisio sicrhau y bydd y bobl sy'n byw yng Nghymru yn ymwybodol o'r trefniadau newydd a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt.

34. Pan fydd y trefniadau newydd yn eu lle, byddwn yn sicrhau y caiff pobl sy'n symud i fyw i Gymru ddigon o amser i ddod i wybod am y system a'i deall fel y gallant fynegi eu gwrthwynebiad i fod yn rhoddwyr, os ydynt yn dymuno gwneud

hynny. Bydd y camau hyn yn sefydlu'r cyfnod o amser sy'n ofynnol cyn i bobl gael eu cynnwys o fewn y system feddal o optio allan.

**Cydsyniad**

35. Weithiau gelwir systemau o optio allan, fel y system feddal sy'n cael ei chynnig ar gyfer Cymru, yn system *"cydsyniad tybiedig"* o roi organau a meinweoedd.

36. Mae cydsyniad yn ganolog i'r rhan fwyaf o systemau rhoi organau a meinweoedd. Yn gyffredinol, ystyrir cydsyniad fel y cyfiawnhad moesegol a chyfreithiol dros dynnu a defnyddio organau a meinweoedd.

37. O dan y system bresennol o optio i mewn yng Nghymru, rhoddir cydsyniad i roi pan fydd unigolion yn gwirfoddoli i fod yn rhoddwyr organau a meinweoedd drwy ymuno â Chofrestr Rhoddwyr Organau y GIG. Yn ogystal â hynny, yn absenoldeb cydsyniad yr unigolyn, gall y teulu roi cydsyniad ar ran y sawl a fu farw pan nad yw'r unigolyn hwnnw wedi gwneud penderfyniad sy'n hysbys o blaid neu yn erbyn rhoi.

38. O dan y system feddal o optio allan a gynigir ar gyfer Cymru, os na fydd unigolyn yn mynegi gwrthwynebiad fe fydd ei organau a'i feinweoedd ar gael i'w rhoi ar ôl iddo farw. Felly, yn absenoldeb gwrthwynebiad, cymerir bod cydsyniad. Ond, fel cam diogelwch, bydd teulu'r sawl a fu farw yn cael eu cynnwys yn y broses o benderfynu ynglŷn â rhoi.

**Y gallu i ddeall**

39. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cadarnhau bod yn rhaid rhagdybio bod gan unigolyn y gallu i wneud penderfyniadau os na phrofir yn wahanol. Ni chaiff yr egwyddor hon ei newid gan y system feddal arfaethedig o optio allan o roi organau a meinweoedd yng Nghymru.

40. Rydym yn cydnabod, o dan y trefniadau cyfredol o roi, na phrofir galluedd meddyliol unigolion i ddeall natur y penderfyniad i ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau (y Gofrestr).

41. Gall fod gan bobl y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am rai agweddau ar eu bywydau, ond nid am rai eraill. Sylweddolir na fydd gan rai pobl byth y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol. Bydd rhai pobl yn colli'r galluedd meddyliol i wneud y penderfyniad hwnnw, a bydd galluedd meddyliol pobl eraill yn amrywio.

42. Canlyniad hyn yw na all unrhyw system o roi organau a meinweoedd sy'n dibynnu ar gyfle a gallu unigolyn i optio allan wneud rhaniad gor-syml rhwng y rhai sy'n meddu a'r rhai nad ydynt yn meddu ar y galluedd meddyliol digonol i wneud penderfyniad.

43. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd clinigwyr, yn dilyn marwolaeth oedolion ac ar ôl cael trafodaeth â'u teuluoedd, yn dynodi'r rhai hynny sydd â diffyg galluedd i wneud penderfyniad am roi organau a meinweoedd.

### Oedolion 18 oed a throsodd

44. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod anawsterau'n bodoli wrth ragdybio y bydd plant yn deall natur a phwrpas rhoi organau a meinweoedd, er mwyn gallu mynegi gwrthwynebiad i hynny.

45. Mae adran 2 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 yn nodi ystyr cyfredol 'cydsyniad priodol' mewn perthynas â gweithgareddau'n ymwneud â chorff plentyn sydd wedi marw. At ddibenion yr adran honno, mae plant yn bobl o dan 18 oed.

46. Felly rydym yn cynnig na fydd plant a phobl ifanc sydd heb gyrraedd 18 oed yn cael eu cynnwys o dan y symudiad at y system feddal o optio allan; bydd y system yn cynnwys pobl ifanc pan fyddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed.

### Pobl na fydd yn cael eu cynnwys yn y trefniadau newydd

47. Ni chaiff y canlynol eu cynnwys yn y system feddal o optio allan o roi organau a meinweoedd yng Nghymru –

a) pobl sy'n marw yng Nghymru ond nad ydynt fel rheol yn byw yng Nghymru (er enghraifft ymwelwyr);
b) pobl sy'n marw yng Nghymru ac yn byw fel rheol yng Nghymru, ond heb fyw yno am y cyfnod o amser sy'n ofynnol;
c) pobl sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, ond sy'n marw y tu allan i Gymru;
d) pobl nad oes modd eu hadnabod ar ôl iddynt farw;
e) oedolion (18 oed a throsodd) nad oes ganddynt y galluedd i ddeall a gwneud penderfyniad ynghylch gwrthwynebu rhoi;
f) plant a phobl ifanc o dan 18 oed.

## Gweithredu'r system feddal o optio allan yng Nghymru

48. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd yna system gadarn a diogel i unigolion allu gwrthwynebu rhoi rhai neu'r cyfan o organau neu feinweoedd unigolyn. Bydd y system hefyd yn sicrhau bod unrhyw wrthwynebiad gan unigolyn i roi ei organau a/neu ei feinweoedd yn cael ei barchu ar ôl ei farwolaeth.

49. Bydd y system feddal o optio allan yn galluogi unigolion i newid eu meddwl, gan dynnu eu gwrthwynebiad yn ôl er enghraifft, yn ogystal â chynnwys pobl sy'n symud i Gymru neu sy'n cyrraedd 18 oed.

### Parhau â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau gyfredol ar gyfer pobl Cymru

50. Cronfa ddata gyfrinachol, gyfrifiadurol yw'r Gofrestr Rhoddwyr Organau (y Gofrestr), sy'n cadw manylion y bobl hynny sydd wedi ymrwymo i roi eu horganau a'u meinweoedd ar ôl iddynt farw. Defnyddir y Gofrestr wedi i berson farw i ganfod a oedd yn dymuno rhoi ei organau a'i feinweoedd ac, os oedd, pa rai.

51. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn ofalus a fydd y Gofrestr gyfredol yn parhau i fod yn berthnasol yng Nghymru wedi i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym. Cydnabyddir gwerth a phwysigrwydd y Gofrestr gyfredol, a'r ymrwymiad gan unigolion wrth ymuno â'r Gofrestr. Am y rhesymau hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd unigolion sy'n byw yng Nghymru yn gallu parhau i ddefnyddio'r Gofrestr.

52. Bydd cadw'r Gofrestr ar gyfer yr unigolion hynny sy'n byw yng Nghymru sy'n dymuno ei defnyddio, ynghyd â'r system feddal newydd o optio allan, yn cynnig manteision i unigolion –

a) y gallu i gofnodi dymuniadau rhag ofn i'r unigolyn farw y tu allan i Gymru, lle na fydd y system feddal o optio allan yn berthnasol;
b) y gallu i gofnodi dymuniadau unigolyn os nad yw'n rhan o'r system feddal o optio allan yng Nghymru hyd yma, er enghraifft am ei fod wedi symud i Gymru yn ddiweddar neu am ei fod o dan 18 oed;
c) gan y bydd organau a meinweoedd yn cael eu derbyn gan bobl ledled y Deyrnas Unedig, waeth ble y cânt eu rhoi, bydd cadw'r Gofrestr ar y cyd â'r system feddal o optio allan yn golygu y bydd mwy o organau a meinweoedd ar gael i'r bobl hynny sydd eu hangen. Bydd hyn yn gwella iechyd ac ansawdd bywyd pobl sydd angen trawsblaniad.

**Cadw cofnodion**

53. Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (Awdurdod Iechyd Arbennig ar gyfer Cymru a Lloegr) sy'n cynnal a chadw'r Gofrestr gyfredol. Er bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gadw'r Gofrestr (fel y nodir uchod), rydym yn cydnabod nad yw hi ar hyn o bryd yn gofnod o'r holl bobl a fyddai'n fodlon rhoi eu horganau. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, nid oedd ychydig dros 67 y cant o'r rhoddwyr yn y Deyrnas Unedig ar y Gofrestr.

54. Nid yw chwaith yn gofnod o'r bobl hynny nad ydynt yn dymuno rhoi eu horganau – yn wir, ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefn ffurfiol i bobl sy'n teimlo'n gryf yn erbyn rhoi eu horganau allu cofrestru eu gwrthwynebiad. Heb drefn o'r fath, mae'n amhosibl bod yn siŵr bod barn yr unigolyn yn cael ei pharchu ar ôl ei farwolaeth.

55. Am y rhesymau hyn, ni all Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gofrestr gyfredol, ar ei ffurf bresennol, i ddarparu system feddal o optio allan sy'n ddiogel ac yn effeithiol.

56. Mae Llywodraeth Cymru felly wedi ystyried nifer o opsiynau cadw cofnodion, i gydredeg â'r Gofrestr bresennol, a fydd yn sicrhau y caiff barn unigolyn ei pharchu ar ôl ei farwolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys –

a) Opsiwn A – cofrestr i Gymru o'r bobl sydd heb wrthwynebu, a chofrestr o'r bobl sydd wedi gwrthwynebu;
b) Opsiwn B – cofrestr i Gymru yn cynnwys dim ond y bobl sydd heb wrthwynebu;

c) Opsiwn C – cofrestr i Gymru yn cynnwys dim ond ond y bobl  sydd wedi gwrthwynebu;

d) Opsiwn D – dim cofrestr(au), ond cofnod o wrthwynebiad yn cael ei roi i feddyg teulu’r person, a’i gadw yno.

57. Ar wahân i opsiwn D, sy’n dibynnu ar gofnod meddyg teulu, mae’n rhaid cadw cofrestr. Mae hyn yn dangos y byddai angen cadw cofrestr ganolog ddiogel a chyfrinachol, y gallai clinigwyr gael gafael arni ar ôl marwolaeth y person.

58. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i’r system gofnodion a ddefnyddir i weithredu system feddal o optio allan yng Nghymru integreiddio â threfniadau rhoi organau a meinweoedd y DU, a chydweddu â hwy. Gallai trefniadau o’r fath gynnwys addasu’r Gofrestr gyfredol er mwyn ymdrin â’r system feddal o optio allan yng Nghymru.

59. Caiff yr ystyriaethau ymarferol sy’n gysylltiedig â dal a chynnal unrhyw gofrestr ganolog eu hystyried yng ngoleuni’r ymatebion i’r Papur Gwyn hwn.

**Sut i wrthwynebu rhoi organau a meinweoedd**

60. O ran yr union ddull(iau) gwrthwynebu, bydd yn dibynnu a gaiff cofrestr ei chadw, ac os felly pa fath o gofrestr (neu gofrestrau). Beth bynnag fydd yn digwydd, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw ddulliau a gyflwynir yn galluogi unigolyn i wrthwynebu rhoi organau a meinweoedd mewn dull cyfrinachol, hwylus a hygyrch.

61. O dan y trefniadau cyfredol gall unigolyn gofrestru ei fwriadau i roi ei holl organau a’i feinweoedd neu ddethol organau neu feinweoedd penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn deall y gallai unigolion fod yn hapus i roi rhai o’u horganau a’u meinweoedd, ond nid y cyfan.

62. Bydd y trefniadau ar gyfer y system feddal o optio allan yng Nghymru yn galluogi unigolyn i optio allan o roi unrhyw organau neu feinweoedd, neu i optio allan o roi rhai organau neu feinweoedd.

**Cadw’r system feddal o optio allan yn gyfredol**

63. Bydd gofyn i’r system feddal o optio allan fod yn ddigon hyblyg i allu ymdopi â newidiadau wedi i’r prif drefniadau newydd gael eu cyflwyno. Bydd newidiadau o’r fath yn cynnwys –

a) unigolyn sy’n newid ei feddwl, er enghraifft rhywun oedd yn gwrthwynebu o’r blaen ond sydd erbyn hyn yn dymuno bod yn rhoddwr;

b) pobl sy’n symud i Gymru neu oddi yno;

c) pobl ifanc sy’n cyrraedd 18 oed.

64. Mae Llywodraeth Cymru yn deall y bydd yn rhaid i’r system feddal o optio allan y bydd yn ei chyflwyno gydnabod a galluogi’r newidiadau hyn, er mwyn sicrhau y bydd dewisiadau unigolion yn cael eu parchu a’u dilyn ar ôl iddynt farw.

65. Bydd y penderfyniad ynghylch cadw cofrestr ai peidio, ac os felly pa fath o gofrestr (neu gofrestrau) a gedwir, yn dylanwadu ar yr ystyriaethau gweithredol pwysig hyn.

**Y diogelwch a ddarperir gan rôl y teulu**

66. Ar hyn o bryd, pan fydd rhoi organau yn cael ei ystyried, bydd clinigwyr yn edrych i ddechrau ar y Gofrestr i weld a oedd unigolyn wedi nodi ei fod yn dymuno rhoi ei organau. P'un a yw unigolyn ar y Gofrestr neu beidio, bydd y clinigwyr yn siarad ag aelodau'r teulu er mwyn gweld beth oedd dymuniadau a barn y sawl a fu farw ynghylch rhoi organau a meinweoedd. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall unrhyw dystiolaeth gan deulu'r unigolyn ynghylch ei ddymuniadau diweddar.

67. O dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (y Ddeddf), a'r Codau Ymarfer cysylltiedig, mae'r clinigwyr yn trafod â'r perthnasau yn y drefn ganlynol:

- priod neu bartner;
- rhiant neu blentyn;
- brawd neu chwaer;
- nain/taid neu ŵyr/wyres;
- nith neu nai;
- llystad neu lysfam;
- hanner brawd neu hanner chwaer;
- cyfaill ers amser maith.

68. O dan y Ddeddf, rhoddir y lle blaenaf i ddymuniadau'r sawl a fu farw, ac ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwyro oddi wrth yr egwyddor bwysig hon o dan y ddeddfwriaeth newydd. Yn wir, bydd y system feddal o optio allan yn cynnig mwy o eglurder ar safbwyntiau'r unigolyn, gan na ellir cofnodi gwrthwynebiad o fewn y system bresennol.

69. Mae'r Codau Ymarfer ar hyn o bryd yn cynghori gweithwyr iechyd proffesiynol i annog y perthnasau, mewn ffordd sensitif, i dderbyn dymuniadau'r sawl a fu farw, gan egluro hefyd nad oes gan y perthnasau yr hawl i wrthdroi'r dymuniadau hynny.

70. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i system feddal o optio allan o roi organau a meinweoedd lle bydd safbwyntiau perthnasau yn cael eu hystyried. Bydd parhau i gynnwys perthnasau yn y ffordd hon yn cyflawni nifer o amcanion –

a) mae'n ddull diogelu pwysig: mae'n bosibl bod teuluoedd yn ymwybodol o wrthwynebiad sydd heb ei gofrestru;

b) mae'n cydnabod dyletswydd gofal y meddyg at y perthnasau i leddfu yn hytrach na gwaethygu eu gofid a'u profedigaeth;

c) gall manylion gan y teulu ynghylch hanes meddygol ac ymddygiadol y claf chwarae rhan bwysig yn llwyddiant y trawsblaniad.

71. O dan system feddal o optio allan o roi organau a meinweoedd, ar y cyd â rhaglen ymwybyddiaeth gyhoeddus helaeth, mae unigolion yn llawer mwy tebygol o fod wedi trafod eu safbwyntiau â'u teuluoedd ac wedi mynegi eu barn yn glir cyn eu marwolaeth.

72. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rôl y teulu mewn system feddal o optio allan. Bydd dymuniadau'r teulu yn cael eu parchu, ac er mwyn diogelu'r dymuniadau hynny mae'n hanfodol fod y teulu'n rhan o'r broses. Hoffem gael eich barn ynglŷn â rôl y teulu wrth ichi ymateb i'r Papur Gwyn hwn.

73. Fe fydd yna ymgynghori â pherthnasau o hyd, ond bydd yn lleddfu'r baich o wneud penderfyniad ar adeg mor anodd, os nad oes yna unrhyw arwydd o ddymuniadau'r sawl a fu farw.

## Beth na fydd yn newid yn sgil y system feddal o optio allan

74. Dim ond deddfwriaeth yn ymwneud â Chymru y gall Llywodraeth Cymru ei chynnig, felly dim ond i Gymru y bydd y system feddal o optio allan yn berthnasol.

75. Amcan polisi Llywodraeth Cymru o ran y cynigion hyn yw –

a) na fyddant yn newid y ffordd o ofalu am gleifion (gan gynnwys y driniaeth feddygol a roddir iddynt) hyd at, a chan gynnwys, adeg eu marwolaeth;
b) na fyddant yn newid y ffordd y caiff y farwolaeth ei chadarnhau – mae yna safonau a gweithdrefnau clir a chaeth iawn ynghylch cadarnhau marwolaeth;
c) na fyddant yn cynnwys organau a meinweoedd gan roddwyr byw (sef trawsblannu organ neu feinwe o roddwr byw – sy'n aml yn gyfaill neu'n aelod o'r teulu – i dderbynnydd);
d) na fyddant yn newid y ffordd y bydd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn dyrannu organau a meinweoedd;
e) na fyddant yn newid y penderfyniadau clinigol ynghylch trawsblaniadau, a'r prosesau sy'n gysylltiedig â hynny;
f) na fyddant yn caniatáu i organau a meinweoedd a roddir fod ar gael at unrhyw ddibenion heblaw trawsblannu. Ni fydd y system newydd yn golygu y caiff organau a meinweoedd a roddir eu defnyddio at ddibenion megis ymchwil ac arddangos neu i'w defnyddio'n fasnachol;
g) na fyddant yn atal unigolion rhag ymuno â'r Gofrestr Rhoddwyr Organau gyfredol.

76. O dan y system feddal o optio allan a gynigir ar gyfer Cymru, byddai hawl i dynnu a defnyddio organau a meinweoedd onibai fod y sawl a fu farw wedi gwrthwynebu hynny yn ystod ei oes. Bydd mecanwaith ffurfiol ar gael i unigolion allu cofrestru'r gwrthwynebiad hwnnw. Ar ôl i rywun farw, bydd ei berthnasau'n cael eu cynnwys yn broses o benderfynu ynglŷn â rhoi.

77. Bydd system o’r fath yn gwella’r modd y gall unigolion yng Nghymru fynegi eu dymuniadau o ran rhoi, ac yn cryfhau sefyllfa’r rhai hynny nad ydynt yn dymuno rhoi, ond gan sicrhau hefyd y bydd mwy o organau a meinweoedd ar gael i’r rheini fydd eu hangen.

# GWEITHREDU'R DDEDDFWRIAETH ARFAETHEDIG

## Asesu'r effaith

### Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

78. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud, wrth i bolisïau, strategaethau, cynlluniau gweithredu a deddfwriaeth gael eu datblygu, i gyfrannu at greu amgylchedd nad yw'n gwahaniaethu. Mae rhan o hyn yn ymwneud ag asesu'r effaith y gallai polisïau a chamau gweithredu ei chael ar bobl Cymru, er mwyn sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu ond yn hytrach yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a chydberthnasau da.

79. Mae'r polisi yn y Papur Gwyn hwn wedi derbyn asesiad sgrinio cychwynnol am gydraddoldeb yn unol ag arferion Llunio Polisi Cynhwysol Llywodraeth Cymru. Casgliadau'r asesiad cychwynnol hwn oedd –

a) bod y polisi'n berthnasol iawn mewn perthynas â hil, ffydd a hawliau dynol;

b) perthnasedd canolig o ran anabledd ag oedran;

c) dim tystiolaeth o effaith benodol y polisi o ran cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, na rhywedd neu ailbennu rhywedd.

80. Yn ystod y broses asesu gychwynnol, nodwyd bod cleifion o'r un grŵp ethnig yn fwy tebygol o gydweddu'n agos yng nghyd-destun rhoi organau.

81. Mae pobl o darddiad Asiaidd neu Affricanaidd-Caribïaidd dair i bedair gwaith yn fwy tebygol na phobl wyn o ddatblygu camau terfynol methiant yr arennau sy'n golygu bod angen trawsblaniad arennau arnynt. Yn ôl data Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mae 23 y cant o'r rhai sydd ar y rhestr aros i dderbyn arennau yn perthyn i'r grwpiau ethnig Asiaidd neu Affricanaidd-Caribïaidd, er mai dim ond 8 y cant o'r boblogaeth sy'n perthyn i'r grwpiau hyn (ar sail ffigurau Cyfrifiad 2001). Dim ond 3 y cant o roddwyr a fu farw sydd o darddiad Asiaidd neu Affricanaidd-Caribïaidd.

82. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio, drwy'r broses ymgynghori ar y Papur Gwyn hwn, cael trafodaethau penodol â chymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a grwpiau ffydd.

83. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o'r broses o gyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol. Gwahoddir y rhai yr ymgynghorir â hwy i roi eu sylwadau ar effaith y polisi ar feysydd cydraddoldeb:

a) anabledd;

b) hil;

c) rhywedd ac ailbennu rhywedd;

d) oedran;

e) crefydd a chred ac anffyddiaeth;
f) cyfeiriadedd rhywiol; ac
g) hawliau dynol.

**Asesu’r effaith ar breifatrwydd**

84. Bydd asesiad o’r effaith ar breifatrwydd yn asesu goblygiadau, o ran preifatrwydd, unrhyw weithgareddau sy’n defnyddio (neu’n newid y modd y defnyddir) data personol fel y’u diffinnir gan Ddeddf Diogelu Data 1998.

85. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn hwn, cynhelir proses sgrinio gychwynnol o dan yr asesiad o’r effaith ar breifatrwydd, i ystyried y goblygiadau o ran preifatrwydd sy’n gysylltiedig â gwneud a chofnodi unrhyw wrthwynebiad o dan y system feddal o optio allan.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

86. Pan gaiff y ddeddfwriaeth arfaethedig ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu Memorandwm Esboniadol a fydd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

87. Bydd yr Asesiad hwn yn amlinellu’r costau a’r manteision sy’n gysylltiedig â chwrdd ag amcanion strategol y Bil arfaethedig, sef sicrhau bod cymaint â phosibl o gleifion yng Nghymru yn rhoi eu horganau a’u meinweoedd.

88. Wrth gyfrifo’r costau, bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio pennu:

a) pwy fydd yn ysgwyddo unrhyw gostau;
b) unrhyw gostau untro (er enghraifft, creu cofrestr neu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cychwynnol ar gyfer y cyhoedd);
c) unrhyw gostau rheolaidd (er enghraifft y costau sy’n gysylltiedig â rhedeg cofrestr, neu raglenni cyfathrebu parhaus); a
d) unrhyw gostau eraill.

89. Datblygwyd amcangyfrif cychwynnol o’r costau fel rhan o’r broses o baratoi’r Papur Gwyn hwn. Yn ôl yr amcangyfrif cychwynnol hwn, bydd gofyn gwario £2.85m ar hyfforddi a chyfathrebu cyn gweithredu’r system.

90. Bydd gofyn gwneud mwy o waith i fireinio’r costau gweithredol rheolaidd fydd yn gysylltiedig â’r system, gan gynnwys unrhyw gofrestrau a systemau cadw cofnodion.

## Amserlen

91. Dogfen ymgynghori yw’r Papur Gwyn hwn ac mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd sylwadau ar y cynigion erbyn **31 Ionawr 2012.**

92. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio Bil ac yn ei gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2012/13.

93. Ar hyn o bryd, disgwylir y byddai yna gyfnod paratoi rhwng creu'r ddeddfwriaeth a gweithredu'r system feddal o optio allan. Byddai cyfnod o'r fath yn caniatáu amser i sefydlu'r mecanweithiau a'r systemau gweithredu priodol, ac i gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus sylweddol.

94. Mae'n debygol mai dwy flynedd fyddai'r cyfnod hwn, felly ni fydd y system feddal o optio allan ar waith yng Nghymru tan o leiaf 2015. Rhoddir rhagor o fanylion am y rhaglen weithredu ym Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil pan gaiff ei gyflwyno.

## Darpariaeth ynghylch y Gymraeg

95. Bydd y system feddal o optio allan yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac unrhyw ddarpariaethau perthnasol ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a fydd mewn grym ar y pryd.

## Ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus

96. Mae'r Papur Gwyn hwn wedi nodi pa mor angenrheidiol a phwysig yw cynnal ymgyrch fawr i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn i'r system feddal newydd o optio allan gael ei chyflwyno. Rhoddir manylion llawnach am ymgyrch o'r fath yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ond mae'r cynigion cynnar yn cynnwys –

- gweithgarwch oddi allan i'r cartref (ee hysbysfyrddau);
- gweithgarwch helaeth ar y teledu, y radio, y wasg ac ar-lein;
- gweithgarwch cymunedol;
- trafod â rhanddeiliaid; ac
- argraffu a dosbarthu taflen ddwyieithog i bob aelwyd yng Nghymru (gyda chopïau atodol ar gyfer lleoliadau megis meddygfeydd).

97. Bydd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn un helaeth o ran defnyddio gwahanol gyfryngau, a hefyd o ran ei hyd (cyn ac ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym) er mwyn sicrhau bod pawb sy'n dymuno optio allan yn gwybod sut i wneud hynny.

# CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

Fel rhan o'r broses ymgynghori mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am ymatebion ar agweddau penodol ar y cynigion polisi, ond mae croeso i ymatebwyr roi tystiolaeth a sylwadau ychwanegol ar y cynnig yn ei gyfanrwydd.

*Pobl a gaiff eu cynnwys yn y system feddal o optio allan*

1. Mae'r Papur Gwyn yn nodi y dylai unigolion fod wedi byw yng Nghymru am gyfnod digonol o amser cyn cael eu cynnwys yn y system feddal o optio allan.

   a) Pa ffactorau ddylid eu hystyried wrth benderfynu a yw unigolyn yn 'byw yng Nghymru'?
   b) Beth ddylai'r cyfnod o amser fod?

2. Ydych chi'n cytuno y bydd trafodaethau rhwng clinigwyr a'r teulu, ar ôl marwolaeth unigolyn, yn nodi ac yn diogelu'r rhai heb alluedd?

3. Ydych chi'n cytuno y dylai'r system feddal o optio allan ar gyfer Cymru fod yn berthnasol i bobl sy'n 18 oed ac yn hŷn yn unig? Os nad ydych chi, pam hynny?

*Gweithredu'r system feddal o optio allan yng Nghymru*

4. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Gofrestr Rhoddwyr Organau gyfredol barhau ar y cyd â'r system feddal o optio allan?

5. O ran yr opsiynau cadw cofnodion ar gyfer y system feddal o optio allan –

   a) Pa un o'r opsiynau ydych chi'n ei ffafrio? (Gweler paragraff 56 o'r Papur Gwyn.)
   b) Yn eich barn chi, oes yna unrhyw opsiynau eraill fyddai'n sicrhau system effeithiol a diogel?

6. Pa rôl ddylai'r teulu ei chael o ran diogelu dymuniadau'r sawl a fu farw?

*Gweithredu*

7. Sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn effeithiol?

8. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich sylwadau ar effeithiau posibl y system feddal arfaethedig o optio allan ar y Gymraeg, hil, ffydd, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil.

9. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi sylwadau ar unrhyw faterion eraill sydd heb eu trafod yn benodol, mae croeso ichi eu cofnodi yma.